

WILLIAMS, MARIA JANE ('Llinos') (1795 - 1873), casglwr llên gwerin a cherddor

PDF Generated on: Tue, 30 Aug 2022 07:21:31 +0000

<https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c12-WILL-JAN-1795>

Enw: Maria Jane Williams

Ffugenw: Llinos

Dyddiad geni: 1795

Dyddiad marw: 1873

Plentyn: Fanny Jones (née Baker)

Rhiant: Ann Williams (née Jenkins)

Rhiant: Rees Williams

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: casglwr llên gwerin a cherddor

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cerddoriaeth

Awdur: Marion Löffler



Ganwyd Maria Jane Williams yn Aberpergwm yng Nglyn-nedd, Morgannwg, ar 4 Hydref 1795, y plentyn ieuengaf o'r pump a anwyd i Rees Williams o Aberpergwm (1755-1812) a'i wraig Ann (g. Jenkins, 1759-1834) o Ystradfellte. Hawliai'r teulu ddisgynyddiaeth o [lestyn ab Gwrgant](#) a chafodd y bardd [Dafydd Nicolas](#) gartref yn Aberpergwm yn ail hanner y ddeunawfed ganrif (gw. [Williams \(teulu\) Aberpergwm](#)). Derbyniodd plant y teulu, William (1788-1855), Rees (1792-1849), Thomas (1793-1861), Elizabeth Ann (1794-1871) a Maria Jane addysg dda yn ôl arferion yr oes, ond heb esgeuluso gwreiddiau diwylliannol ac ieithyddol y teulu ychwaith. Cedwid cysylltiadau agos â'r gymuned leol, ac anogwyd y plant i ddysgu Cymraeg a chanu caneuon Cymraeg a'r delyn. Mynychodd Elizabeth Ann a Maria Jane ysgol fonedd yn Abertawe, gan ddilyn patrwm bywyd boneddigesau cefnog yr oes wedyn. Byddent yn mynd i Lundain am 'y tymor' ym mis Mai a threulio mis Awst mewn trefi sba, megis Llandrindod a Cheltenham. Dangosodd Maria Jane ddawn gerddorol yn gynnar yn ei bywyd, ac roedd yn arbennig o hoff o alawon a cherddoriaeth ei gwlad. Dysgwyd y delyn iddi gan y telynor enwog Elias Parish Alvars. Disgrifiwyd ei llais fel un 'rhagorol' gan gyfoedion, a'i dawn megis 'athrylith reddfol am gerdd' yn yr ysgrif goffa iddi yn yr *Athenaeum*. Ymddengys iddi hefyd fod yn feistres ar y gitâr.

Yn groes i arfer y teulu, teithiodd Maria Jane i Iwerddon am ddeufis yn haf 1826, heb Elizabeth Ann, ond yng nghwmni y [Parch Thomas Price](#) ('Carnhuanawc'), gan aros yn Abaty Adare, cartref teuluol leirll Dunraven. Ceir tystiolaeth sydd yn cadarnhau traddodiad lleol iddi fynd yno i roi genedigaeth yn ddirgel i faban anghyfreithlon ail larll Dunraven a Mount-Earl, Henry Windham Quin (1782-1850). Ar ddiwedd yr haf dychwelodd Elizabeth Ann a Maria Jane i Aberpergwm gyda baban ifanc.

Defnyddiodd Maria Jane ei harhosiad yn Iwerddon yn 1826 i deithio o gwmpas Cork a Kerry, gan ddysgu caneuon gwerin Gwyddeleg. Yr ymweliad hwn a'i chyfarfod â'r hynafiaethydd Gwyddeleg enwog Thomas Crofton Croker (1798-1854) ar y daith adref a sbardunodd ei gyrfa fel hynafiaethydd. Derbyniodd hyfforddiant gan Croker ym methodoleg casglu cân a llên gwerin, a ef a gyhoeddodd ei chasgliad o chwedlau gwerin Cymraeg, un o'r rhai cyntaf yn yr iaith, yn 1828. Ceir y casgliad fel atodiad i *Fairy Legends and Traditions of the South of Ireland*, second and third series a olygwyd gan Crofton Croker. Er iddi dderbyn rhai o'r chwedlau drwy lawysgrifau [Edmund Jones](#) (1702-1793) ac, o bosib, gan [Carnhuanawc](#), hi a gasglodd y rhan fwyaf ohonynt o wefusau'r werin bobl, gan restru a disgrifio'i ffynonellau. Y mae'r casgliad yn nodedig yn ei amser.

Yn 1836, yn dilyn priodas eu brawd hynaf William, symudodd Maria Jane ac Elizabeth Ann i Ynyslas Cottage ym Mlaen-gwrach, t a adeiladwyd i ail larll Dunraven ym 1819, ac a brydleswyd i'r chwirydd yn awr. Daethant yn adnabyddus yn yr ardal fel 'Ladis y Cottage'. Yma y treuliodd Maria Jane Williams weddill ei hoes, yn feistres ar gartref i un ar ddeg o bobl, gan gynnwys ei merch dybiedig Fanny Baker (g. 1826), yr honnwyd ei bod yn nith i un o fornyon y t, Jemima Baker.

Erbyn hyn yr oedd y cylch o gwmpas [Augusta Hall](#), Arglwyddes Llanofar wedi sefydlu Cymreigyddion y Fenni ac yn trefnu'r gyfres o eisteddfodau a fyddai'n pontio'r bwll rhwng y gwyliau a drefnwyd yn y 1820au a sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol yn ail hanner y ganrif. Yr oedd Williams yn gefnogwr brwd i'r mudiad, a mynychodd y teulu eisteddfod 1836. Ymwelai Maria Jane ac Elizabeth Ann â Llanofar yn fynych, ac edmygwyd 'llais gwych' a chanu'r delyn soffistigedig Maria Jane gan y cylch. Penderfynodd yr Arglwyddes Elizabeth Coffin Greenly (1771-1839) o Lys Titley yn Sir Henffordd hyrwyddo ei gwaith drwy gynnig gwobr am y 'casgliad gorau o alawon gwreiddiol anghyhoeddedig Cymreig, gyda'r geiriau fel y'u cenir gan werin bobl Cymru' yng nghystadlaeth Eisteddfod y Fenni 1837. Casgliad Maria Jane Williams a fu'n fuddugol a chafodd ei gyhoeddi o dan y teitl [Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg](#) yn 1844, wedi ei gyflwyno i'r Frenhines Fictoria drwy nawdd Arglwyddes Llanofar. Wrth olygu'r gyfrol, anogwyd Maria Jane gan Arglwyddes Llanofar i gyhoeddi'r alawon â'u geiriau Cymraeg, a derbyniwyd peth cymorth yn hyn gan [Taliesin Williams](#) ('Taliesin ab Iolo') (cyfaill i'w brawd William) a chan [John Jones](#) ('Tegid'). Symudwyd cyfieithiadau Saesneg, rhai ohonynt gan Crofton Croker, i atodiad ar

ddiwedd y gyfrol. Hyrwyddwyd rhai o'r alawon a gasglwyd gan Maria Jane Williams i statws cenedlaethol, wedi eu trefnu ar gyfer parlwr a llwyfan, drwy eu cynnwys yn *The Welsh Harper being an extensive collection of Welsh music* gan [John Parry](#) (Bardd Alaw) ym 1838, ac yn y pedair cyfrol o alawon Cymreig wedi eu trefnu i'r delyn a gyhoeddwyd gan [John Thomas](#) (Pencerdd Gwalia) rhwng 1856 a 1874 yn adeiladu ar ei gwaith hi. Serch hynny, *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* oedd yr unig gasgliad cyhoeddedig o alawon Cymreig â geiriau Cymraeg tan yr ugeinfed ganrif, ac roedd yr wybodaeth a gynhwysai am ganeuwyr gwreiddiol yr alawon yn arloesol. Erys yn gyhoeddiad pwysig, gydag adargraffiadau yn 1988 a 1994. Ceir yn yr olaf nodiadau helaeth ar y gerddoriaeth a hanes awdurdodol o fywyd a gwaith Maria Jane Williams.

Yr oedd Maria Jane Williams yn byw bywyd cymdeithasol prysur, gan ymweld â Chastell Dwnrhefn a Llys Llanofar yn rheolaidd, a threulio amser yn Llandrindod a Cheltenham, yn ogystal â theithio i eisteddfodau yng ngogledd Cymru. Trefnai wledau i ddawnsuwr a chantorion yn ei chartref yng Glyn-nedd Uchaf yn rheolaidd. Yn 1850 ymunodd William a hithau â Chymdeithas Hynafiaethau Cymru. Gohebai Maria Jane ag ysgolheigion benywaidd eraill, megis yr hynafiaethydd [Angharad Llwyd](#) a'r hanesydd [Jane Williams](#) ('Ysgafell'). Yn ei henoed ymfyrydai yn ymweliadau mynych Fanny Baker, a oedd wedi priodi Evan Jones o Bontneddfechan, a'u pum plentyn. Dim ond yn ei henoed, felly, y câi fynegi ei chariad tuag at ei hunig blentyn.

Bu farw Maria Jane Williams yn Ynyslas Cottage ar 10 Tachwedd 1873, ac fe'i claddwyd ym meddrod y teulu yn eglwys Aberpergwm. Yn ei hewyllys, gadawodd y rhan fwyaf o'i stad i dair merch Fanny Baker, ac etifeddodd y ddau fab £100 yr un yn unig. Er bod papurau Maria Jane Williams ar wasgar, cedwir rhai llawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, a cheir nifer o lythyrau at Thomas Crofton Croker yn archifau Cork yn Iwerddon.

Awdur

Marion Löffler

Ffynonellau

The Athenaeum, 22 Tachwedd 1873

Elizabeth F. Belcham, *About Aberpergwm: the home of the Williams family in the Vale of Neath, Glamorgan* (Aberpergwm 1992)

T. G. Davies, 'Brodyr Maria Jane Williams a'u cefndir', *Llên Cymru* 19 (1996), 30-45

George Eaton, 'The Williams Family of Aberpergwm', *Neath Antiquarian Society Transactions* (1979), 19-37

Maxwell Fraser, 'Lady Llanofar and her Circle', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1968; rhan 2), 170-96

Daniel Huws, 'Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg, 1844-1994', *Cerddoriaeth Cymru, cylchgrawn y Gymdeithas er hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru*, 9/7 (1994/1995), 22-6

Rachel Ley, *Arglwyddes Llanofar: Gwenynen Gwent* (Caernarfon 2001)

Morfydd. E. Owen, '[A Cambro-Hibernian Alliance: Maria Jane Williams and Thomas Crofton Croker](#)', *Archaeologia Cambrensis*, 143 (1994), 2-36

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 364-74

Mair Elvet Thomas, *Afiaith yng Ngwent: Hanes Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni* (Caerdydd 1978)

Mair Elvet Thomas, *The Welsh Spirit of Gwent* (Cardiff 1988)

Maria Jane Williams, Daniel Huws (gol.), *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* (1994)

Gwybodaeth lafar gan Mr Daniel Huws

Darllen Pellach

Daniel Huws, [Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg](#), *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 15, rhif.1, tt. 31-54

Erthygl Wicipedia: [Maria Jane Williams](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Aberpergwm Estate Records 1308-1317: Diaries with manuscript entries by Maria Jane Williams](#)

VIAF: [21418326](#)

Wikidata: [Q6761282](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2019-08-21

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

